

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Hydref 13, 2015 am 7.30 o'r gloch.

AGENDA

Gweddi

1. Ymddiheuriadau:

2. Datgan diddordeb:

Roedd Gethin Williams yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllunio NP5/65/320A. Eitem 7.a.i.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Medi 8, 2015

4. Materion yn codi o'r cofnodion Medi 8, 2015

Eitem 8.ff.iii. Llythyr ateb (17/9/2015) oddi wrth Dŵr Cymru yn rhoi gwybod bydd rhaid talu am wasanaethau dŵr a charthffosiaeth ac mae'r gost tua £120 y flwyddyn. Maent yn awgrymu datgysylltu'r toiledau rhag risg i ddŵr gollwng ond mi fydd taliad o £35 i ail gysylltu.

Eitem 10b. Llythyr ateb oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri eisiau gwybod os mae gan yr aelodau gwybodaeth am berchnogion Halfway House.

Wedi gwneud ymholiadau, rhoddwyd gwybod i'r Awdurdod mae gan y perchnogion cysylltiad gyda Ty Nant, Llanelltyd.

Eitem 8.g. Llythyr (22/9/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bod y cwrs wedi cael ei gohirio odrwydd diffyg cefnogaeth.

Eitem 10.a. Roedd Peredur Jenkins a Geraint Rowlands yn bresennol yn y cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriad oddi wrth Janet Edwards.

5. Materion Ariannol

a. Derbyniwyd (18/9/2015) siec am £100.00 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. at daliad i osod beddfaen ar y diweddar Monica Myfanwy Cheshire.

b. Balans yn y banc ar 29 Medi, 2015: £10,526.73.

c. Bil (7/10/2015) am £480 oddi wrth Mr E.W. Davies am dorri gwair ar ddiwedd mis Medi.

ch. Mae angen cwblhau ffurflen HSBC i ganslo taliadau misol i Mr G.A. Corps.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/65/320A. Cais rhannol ôl weithredol i adfer sguor yn lety gwyliau a gosod uned trin carthion. Ysguor ger Ty'n Lon., Bontddu.

Penderfynwyd ddim rhoi barn ar y cais oherwydd y gwaith cafwyd ei wneud ar y safle yn y gorffennol. (24/9/2015).

ii. NP5/65/91B. Adeiladu estyniad unllawr. Coedir, Llanelltyd..

b. Llythyr (Medi 29, 2015). Mae'r Awdurdod yn gwahodd cynghorau tref a chymuned i gyfarfod ynglŷn â phrosiectau, polisiâu a rhaglenni'r Awdurdod. Bydd y cyfarfod lleol yn Coed y Brenin ar ddydd Mawrth, Tachwedd 17 am 6:00-9:00yh.

8. Gohebiaeth

a. Llythyr (24/9/2015) oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru, Caerdydd yn rhoi gwybod Archwilydd Cyffredinol Cymru bydd ein harchwilydd statudol. BDO LLP fydd yr archwilydd penodedig ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ac yn gyfrifol am archwilio ein Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2015-2016 ac ymlaen. Mae swyddfa BDO yn Southampton (mae swyddfa hefyd yn Llanelltyd).

b. Llythyr (23 Medi, 2015) oddi wrth Oedolion, Iechyd a Llesiant, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am ail strwytho'r Gwasanaeth Cofrestru yn Nwyfor a Meirionnydd. Bydd y strwythur newydd yn cael ei chyflwyno Hydref 5, 2015. Bydd oriau agor swyddfeydd cofrestru Dolgellau a Phwllheli rhwng 10:00 a 12:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener. Ni fydd gorsafod yn Bala, Porthmadog a Thywyn.

b. Llythyr (Medi 2015) oddi wrth Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen. Maent angen cymorth ariannol.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

10. Materion Brys

a. Erthygl yn 'Newyddion' Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am gyfle i ddweud eich barn yn gyfarfodydd Her Gwynedd yn Ysgol y Gader ar Hydref 7 am 6:45yh (Fforwm Cyhoeddus) ac yn Llyfrgell Rydd ar Tachwedd 10 am 11:00yb i 1:00yp (Sesiwn galw heibio). Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhannau arall o'r sir.

Yn gywir,
H.M. Edwards, Clerc